Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Machynlleth
**Tŷ Melfed**
**Craigfryn**
**Machynlleth**
**Powys**
**SY20 8JB**

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2012**

**gan**

**Mr Wil Williams**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 18/07/2012**

## Cyd-destun

Agorwyd Cylch Meithrin Machynlleth dros ddeugain mlynedd yn ôl mewn caban ar dir yr ysgol gynradd. Mae bellach yn cyfarfod mewn canolfan integredig newydd ar safle cyfagos ac yn rhannu cyfleusterau'r adeilad gyda mudiadau cyn-ysgol eraill. Mae'r lleoliad yn rhan o ddarpariaeth Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Powys sy'n darparu addysg cyn-ysgol Gymraeg i dref Machynlleth a'r ardal wledig o'i chwmpas.

Mae'r ardal a wasanaethir gan y lleoliad wedi'i nodi fel ardal 'Cymunedau'n Gyntaf.' Daw'r rhan fwyaf o'r plant sy'n mynychu'r cylch o'r dref ei hun a'r pentrefi cyfagos. Caiff plant o bob gallu a chefndir eu derbyn i'r lleoliad. Yn ystod yr arolygiad, nid oedd yr un plentyn ag anghenion addysgol arbennig nac o dras ethnig yn mynychu'r lleoliad.

Darperir sesiynau o dair awr am bum bore'r wythnos ac un sesiwn o ddwy awr am un prynhawn. Mae'r nifer o sesiynau a fynycha'r unigolion yn amrywio yn ôl dymuniad y rheini. Ar hyn o bryd, mae 16 o blant tair oed wedi'u cofrestru yn y lleoliad ac yn cael eu hariannu gan y Bartneriaeth.

Saesneg yw'r iaith a siaredir gartref gan y rhan fwyaf o'r plant gyda'r gweddill ag o leiaf un rhiant sy'n siarad Cymraeg. Prif gyfrwng addysgu a dysgu'r lleoliad yw Cymraeg.

Mae tri aelod o staff yn y lleoliad, sef arweinydd, a dwy ymarferydd. Mae'r holl staff â chymwysterau priodol ar gyfer addysgu'r blynyddoedd cynnar.

Bydd bron pob plentyn yn trosglwyddo i Ysgol Gynradd Machynlleth ar ddechrau'r tymor yn ystod eu pen blwydd yn bedair oed.

Arolygwyd y lleoliad ddiwethaf gan yr Arolygaeth Gofal a Gwasanaeth Cymdeithasol Cymru ym mis Hydref 2011 a chan Estyn yng Ngorffennaf 2006.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol y lleoliad | Da |
|---|---|
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

**Perfformiad presennol**

Mae perfformiad cyfredol y lleoliad yn dda oherwydd bod:

- safonau medrau cyfathrebu a llythrennedd yn dda;
- y rhan fwyaf o'r plant yn gwneud cynnydd da mewn dysgu ac yn arddangos lefelau uchel o annibyniaeth a dyfalbarhad;
- safonau ymddygiad yn dda gyda phlant yn ystyriol o deimladau plant eraill ac yn cydweithio'n gytûn;
- yr amrediad o brofiadau dysgu diddorol a chyffrous yn symbylu plant;
- ansawdd addysgu'n uchel a'r asesu'n drwyadl, a bod
- darpariaeth gynhwysfawr ar gyfer hyrwyddo iechyd a lles plant.

**Rhagolygon gwella**

Mae'r rhagolygon gwella'n dda oherwydd bod:

- y lleoliad yn cael ei arwain yn dda a'r staff yn gweithio'n effeithiol fel tîm;
- aelodau'r pwyllgor rheoli yn cyflawni eu cyfrifoldebau yn hynod o drylwyr;
- ymarferwyr yn hunan arfarnu gydol yr amser ac yn ymchwilio i ffyrdd o wella;
- ymarferwyr yn agored i syniadau newydd ac yn fodlon arbrofi gyda ffyrdd newydd o weithio;
- cymuned ddysgu gref wedi'i sefydlu yn y lleoliad, a bod
- ystod eang o weithgareddau partneriaeth yn cyfrannu'n gryf at gyflawniadau da a lles plant.

## Argymhellion

Er mwyn gwella ymhellach, mae angen i'r lleoliad:

A1. gynllunio'n fanylach ar gyfer datblygu'r Gymraeg;

A2. ddarparu mwy o arweiniad i rieni ar sut y gallant helpu eu plant.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn gwneud cynnydd da mewn dysgu o'r amser maent yn dechrau yn y lleoliad ac yn cyflawni safonau da ym meysydd dysgu'r Cyfnod Sylfaen. Wrth ymwneud ag ystod eang o weithgareddau, mae bron pob plentyn yn adalw dysgu blaenorol yn rhwydd ac yn datblygu medrau meddwl a datrys problemau da. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn dangos diddordeb mewn gweithgareddau a chyfleoedd dysgu ac maent, fel arfer, yn awyddus i gymryd rhan yn y rhain. Yn ystod gweithgareddau lle cânt ryddid i ddewis, mae'r plant mwyaf aeddfed yn arbrofi ac ymchwilio'n hyderus, yn fodlon mentro ac yn gwneud cynnydd da tuag at fod yn ddysgwyr annibynnol.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn dechrau datblygu medrau cyfathrebu a llythrennedd da trwy gyfrwng y drefn ddyddiol megis cofrestru, amser byrbryd ac a gweithgareddau chwarae rôl. Mae mwyafrif y plant yn gallu cyfleu'r hyn a fynnant yn glir ac yn ystod trafodaethau torfol, yn mynegi eu teimladau a'u syniadau yn eglur a hyderus. Mae'r holl blant yn mwynhau dysgu ac ymuno mewn amryw o ganeuon a rhigymau. Yn ystod amser stori, mae'r rhan fwyaf yn gwrando'n astud ac yn trafod y prif ddigwyddiadau a'u hoff gymeriad yn eithaf hyderus. Gall llawer ddewis llyfrau yn annibynnol i ddiben penodol tra bo ychydig wedi dechrau defnyddio rhai strategaethau ar gyfer adnabod llythrennau a geiriau cyfarwydd.

Wrth iddynt arbrofi gyda gwahanol gyfryngau i wneud marciau, daw'r rhan fwyaf o'r plant i ddechrau deall rhai o swyddogaethau ysgrifennu, megis anfon llythyr neu greu rhestr siopa.

Mae gan yr holl blant agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu Cymraeg. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn ymateb yn gyflym i gyfarwyddiadau sylfaenol gan ymarferwyr ac yn deall llawer mwy o eiriau nag y gallant eu defnyddio eu hunain. Yn ystod sesiynau torfol, bydd llawer o'r plant yn ailadrodd rhai geiriau ac ymadroddion cyfarwydd yn gywir. Er hynny, ychydig o'r plant sy'n ddigon hyderus i ymateb ac i ddefnyddio'r Gymraeg

**Lles: Da**

Mae'r holl blant yn mwynhau eu hamser yn y lleoliad ac wedi ffurfio perthynas glos gyda phlant eraill a'r ymarferwyr. Nodwedd amlwg o'r lleoliad yw ymddygiad da'r rhan fwyaf o'r plant a'r gofal sydd ganddynt tuag at ei gilydd. Mae llawer o'r plant yn ystyriol o deimladau plant eraill. Wrth ymwneud â gweithgareddau penodol neu dasgau o'u dewis hwy eu hunain, maent yn cydweithio'n gytûn. Yn unol â'u gallu a'u cyfnod datblygu, mae mwyafrif y plant yn arddangos lefelau uchel o annibyniaeth a dyfalbarhad.

Mae gan yr holl blant ddealltwriaeth dda o sut y gallant ddod yn iach drwy'r hyn maent yn ei fwyta a'r gweithgarwch corfforol maent yn ymgymryd ag ef. Maent i gyd

yn elwa'n sylweddol  o flasu amrywiaeth o fyrbrydau iach ac yn ymateb yn gadarnhaol i sesiynau corfforol megis 'traed bach sionc.'. Wrth sgwrsio ag ymwelydd, dywed plant eu bod yn teimlo'n ddiogel yn y lleoliad a'u bod yn rhydd oddi wrth gam-drin corfforol neu eiriol.

Mae bron pob plentyn yn fodlon ymgymryd â chyfrifoldebau megis hunan-gofrestru ac, wrth iddynt aeddfedu, maent yn dysgu gwneud penderfyniadau mwy gwybodus am eu dysgu.

| **Cwestiwn Allweddol 2:  Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu:  Da**

Caiff Fframwaith y Cyfnod Sylfaen ei ddefnyddio'n fwriadus gan ymarferwyr i adnabod y medrau a'r wybodaeth a dealltwriaeth sy'n fwyaf priodol ar gyfer gofalu bod cynnydd a pharhad yn nysgu plant. Trwy gyd-gynllunio manwl a hyblyg, llwyddir i ddarparu amrediad eang o weithgareddau diddorol a chyffrous ar draws pob maes dysgu sy'n sbarduno diddordeb yr holl blant.  Mae'r arfer o ddilyn diddordebau'r plant yn ychwanegu'n sylweddol at ansawdd dysgu'r plant.

Mae darpariaeth gydlynus ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu sydd wedi'i gwreiddio'n gadarn ym mhrofiadau dysgu pob plentyn.Mae'r lleoliad yn creu amgylchedd dychmygus dros ben dan do sy'n annog plant i arbrofi gyda phrofiadau newydd ac i ddatblygu medrau allweddol yn effeithiol.  Mae'r ardal y tu allan yn cyfoethogi dysgu'r plant yn sylweddol.  Caiff profiadau dysgu'r plant eu heangu ymhellach gan ymweliadau â mannau yn y gymuned a chan gyfraniad nifer o ymwelwyr â'r lleoliad.

Darperir cyfleoedd o ansawdd uchel i blant ddatblygu eu hunaniaeth bersonol a chodi eu hymwybyddiaeth o ddiwylliant, gwyliau a thraddodiadau Cymru.  Trwy chwarae rôl a dilyn stori bywyd plentyn mewn gwlad dramor, ynghyd â chodi arian at elusennau, daw plant yn fwyfwy ymwybodol o'u rôl fel dinasyddion byd-eang.  Mae cyfleoedd da iddynt ddysgu am gynaladwyedd ac i chwarae rhan weithredol yn nhrefniadau ailgylchu'r lleoliad.

**Addysgu:  Da**

Mae gan ymarferwyr wybodaeth a dealltwriaeth gyfoes o'r Cyfnod Sylfaen ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ar gyfer dysgu'r plant. Mae'r amgylchedd symbylus, heriol a chyffrous a grëir dan do ac yn yr awyr agored, yn annog ymglymiad, cyfranogiad a mwynhad plant. Trwy gyd-gynllunio meddylgar, gwneir defnydd pwrpasol o dasgau ffocws ar gyfer cyflwyno medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth penodol. Caiff profiadau dysgu eu haddasu'n fedrus i gyfarfod ag anghenion yr holl ddisgyblion, gan gynnwys y rhai mwy galluog a thalentog. Mae'r ymarferwyr yn gwybod pryd y mae'n briodol i ymyrryd yn nysgu'r plant a gwnânt hynny'n sensitif a medrus er mwyn herio syniadau'r plant ac annog dysgu.  Llwydda'r lleoliad i gadw cydbwysedd effeithiol rhwng gweithgareddau a ddewisir gan y plant a rhai sy'n cael eu cyfarwyddo gan ymarferwyr.  Caiff defnydd dychmygus ei wneud o amrywiaeth o adnoddau i apelio at ddiddordeb plant a gwella dysgu.  Mae ffocws clir i gefnogaeth gan oedolion a gwnânt gyfraniad arwyddocaol i ansawdd dysgu'r plant.

Caiff cynnydd a dysgu'r plant eu hasesu a'u cofnodi'n drwyadl ar draws pob maes dysgu a defnyddir y wybodaeth hon yn bwrpasol ar gyfer cynllunio'r cam nesaf mewn dysgu. Mae'r adroddiadau blynyddol i rieni yn rhoi gwybodaeth fuddiol am gyflawniadau, lles a datblygiad eu plant. Fodd bynnag, ychydig o gyfleoedd a roddir i rieni gyfrannu tuag at asesiad eu plentyn.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae darpariaeth dda ar gyfer hyrwyddo iechyd a lles plant, gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol. Mae'r profiad dyddiol gaiff plant o weithio yn yr ardal y tu allan yn cael effaith lesol ar eu datblygiad ysbrydol a chorfforol ac yn codi eu hymwybyddiaeth o ryfeddodau byd natur o'u cwmpas. Caiff plant anogaeth gref i fod yn garedig tuag at ei gilydd, i fod yn onest a theg ac i ymddwyn mewn ffordd gyfrifol. Mae hyn yn help mawr i'r plant ddysgu gwahaniaethu rhwng yr hyn sy'n iawn a'r hyn sydd ddim yn iawn. Mae'r cyfleoedd rheolaidd i blant i ymgymryd â chyfrifoldebau ac i wneud dewisiadau eu hunain ynghylch eu dysgu yn cyfrannu'n arwyddocaol tuag at eu datblygiad personol a chymdeithasol.

Mae ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac yn darparu arweiniad clir iddynt yn ystod sesiynau. Mae'r lleoliad yn cefnogi rhieni a theuluoedd yn dda ac yn sicrhau bod cymorth proffesiynol ar gael iddynt pe cyfyd yr angen.

Trwy gydweithio clos gyda staff yr ysgol gynradd, sicrha'r ymarferwyr bod trefniadau trosglwyddo effeithiol iawn rhwng y ddau sefydliad a bod plant ymgartrefu'n gyflym yn eu dosbarth newydd.

Mae gan y lleoliad bolisi priodol ac mae ganddo weithdrefnau ar gyfer diogelu.

Caiff anghenion dysgu plant eu nodi'n fanwl pan fyddant yn ymuno â'r lleoliad a bydd ymarferwyr yn gwneud yn siŵr bod yr anghenion hyn yn cael eu bodloni. Mae'r ymarferwyr yn gyfarwydd â gofynion y polisi ar

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol lle caiff pob plentyn hawl cyfartal i'r holl feysydd dysgu a'r gweithgareddau a ddarperir. Mae pwyslais cryf ar ddatblygu agweddau goddefgar ac ar sicrhau bod plant ac aelodau'r staff yn rhydd o unrhyw aflonyddwch. Mae gan y lleoliad ddigon o ymarferwyr sy'n meddu ar wybodaeth ac arbenigedd digonol i addysgu pob agwedd ar gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Nodweddion amlwg iawn o'r lleoliad yw'r amgylchedd dysgu hynod o ddiddorol a grëir ynddo a'r cyfleoedd a gaiff pob plentyn i ddatblygu gwerthoedd ac agweddau cadarnhaol.

Mae cyflenwad helaeth o adnoddau o ansawdd da ym mhob maes dysgu gan gynnwys technoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Caiff y rhain eu gweddu'n ofalus i ddatblygiad ac anghenion dysgu pob unigolyn. Caiff yr adnoddau yn yr ardal y tu allan, ar dir yr ysgol ac yn y gymuned eu defnyddio'n bwrpasol i gyfoethogi'r cwricwlwm ac i gefnogi dysgu yn yr ystafell ddosbarth. Mae'r adeilad a'r ystafelloedd o ansawdd da ac yn cael eu defnyddio'n effeithiol.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Trwy ymroddiad a brwdfrydedd yr arweinydd, llwydda'r lleoliad i greu ethos cadarnhaol lle mae plant a staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae ymarferwyr yn rhannu gwerthoedd cyffredin am ddysgu, ymddygiad a pherthnasau ac maent yn cydweithio'n effeithiol iawn i sicrhau bod y Cyfnod Sylfaen a blaenoriaethau cenedlaethol eraill yn cael eu gweithredu'n llwyddiannus. Mae synnwyr cryf o ddiben yr arweinydd yn hybu a chynnal gwelliant yn effeithiol. Mae dysgu ac addysgu yn cael eu rheoli'n dda, ac mae polisïau'r lleoliad yn cael eu gweithredu'n effeithiol. Mae gan staff ddealltwriaeth eglur o'u rolau a'u cyfrifoldebau ac maent yn eu cyflawni'n gydwybodol. Mae'r berthynas gyda'r plant, y rhieni a'r ysgol gynradd yn gadarnhaol ac yn cyfrannu'n arwyddocaol tuag at greu synnwyr o gymuned.

Mae disgwyliadau ar gyfer sicrhau gwelliant yn uchel gyda'r arweinydd yn cefnogi staff yn dda ac yn gosod her i bawb i wneud eu gorau. Mae gweithdrefnau effeithiol ar gyfer rheoli a gwerthuso perfformiad staff.

Mae aelodau'r pwyllgor rheoli yn cyflawni eu cyfrifoldebau yn hynod o drylwyr ac yn darparu cefnogaeth gref iawn i staff y lleoliad. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda iawn o'u rolau ac maent yn llais dylanwadol yn natblygiad y lleoliad.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae ymarferwyr yn adnabod eu lleoliad yn dda a thrwy reolaeth fwriadus yr arweinydd maent yn hunan arfarnu gydol yr amser ac ymchwilio i ffyrdd o wella. Sefydlwyd gweithdrefnau cadarn i gynnal arfer dda a gweithredu newidiadau mewn meysydd sydd angen eu gwella. Mae hunan arfarnu yn cymryd sylw gofalus o farn y pwyllgor rheoli a'r rheini ac yn manteisio'n sylweddol ar gyngor athrawes gefnogol yr awdurdod lleol.

Caiff gwybodaeth sy'n deillio o hunan arfarnu ei defnyddio'n bwrpasol mewn cynllun gweithredu manwl sy'n blaenoriaethu materion y mae'r lleoliad yn dymuno eu gwella. Mae'r camau a gymerwyd i wella safonau wedi arwain at ddeilliannau cadarnhaol.

Mae'r diwylliant o gydweithredu sydd wedi hen sefydlu, yn ogystal â pharodrwydd staff i ymgymryd â chyfrifoldebau, yn galluogi'r lleoliad i ddatblygu fel cymuned ddysgu gref. Mae ymarferwyr yn agored iawn i syniadau newydd ac yn fodlon arbrofi gyda ffyrdd newydd o weithio ac i rannu eu gwybodaeth gydag eraill yn y lleoliad. Cânt eu cefnogi gan ddatblygiad proffesiynol parhaus effeithiol sy'n sicrhau bod ganddynt wybodaeth gyfoes o ddatblygiadau yn y Cyfnod Sylfaen.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae ystod eang o weithgareddau partneriaeth yn cyfrannu'n gryf at gyflawniadau da a lles plant. Caiff y rhieni eu hysbysu'n rheolaidd am bob agwedd ar waith y lleoliad ac mae ymarferwyr yn cymeryd camau gweithredol i'w cynnwys yn yr holl weithgareddau a drefnir. Er bod y llawlyfr rhieni yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol am bolisïau a gweithdrefnau'r lleoliad, nid yw'n rhoi cyngor i'r rhieni ynghylch sut y

gallant helpu eu plant.  Mae cysylltiadau agos iawn gyda'r ysgol gynradd gyfagos ac mae trefniadau clir ar gyfer rhannu gwybodaeth asesu a rhannu arferion da.

Mae'r cydweithio agos rhwng y lleoliad ag athrawes gynhaliol yr awdurdod lleol yn cyfrannu'n gadarnhaol iawn at wella ansawdd y ddarpariaeth a'r safonau.  Mae'r ymarferwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol iawn, yn rhannu gwybodaeth am blant ac yn gwybod gyda phwy i gysylltu a phryd os bydd angen cymorth ychwanegol ar blentyn.  Mae partneriaethau cynhyrchiol iawn wedi eu ffurfio â nifer o sefydliadau yn y gymuned leol.

**Rheoli adnoddau:  Da**

Mae trefniadau effeithiol ar gyfer rheoli staff ac adnoddau.  Mae digon o adnoddau o ansawdd da ar gyfer cefnogi dysgu plant ac mae'r lleoliad wedi'i staffio'n briodol. Mae gan yr arweinydd a'r pwyllgor rheoli ddealltwriaeth drylwyr o'u cyllideb ac yn blaenoriaethu gwariant yn unol ag anghenion datblygu'r lleoliad.  Gyda chymorth rhieni eraill, mae'r pwyllgor yn trefnu nifer helaeth o weithgareddau codi arian.  Caiff penderfyniadau gwariant eu harfarnu'n ofalus i wneud yn siŵr eu bod yn cael effaith uniongyrchol ar safonau cyflawniad, cynnydd a lles plant.  Mae'r lleoliad yn rhoi gwerth da am arian.

## Atodiad 1

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i rieni

Derbyniwyd 16 o holiaduron rhieni gyda bron pob ymateb yn gadarnhaol. Mae hyn yn cymharu'n dda iawn â'r canrannau cenedlaethol.

Dywed pob rhiant bod eu plant yn mwynhau mynychu'r lleoliad ac yn gwneud cynnydd da.  Credant fod y lleoliad yn cael ei redeg yn dda, bod amrywiaeth dda o weithgareddau a bod eu plant wedi'u paratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol.

### Ymateb i drafodaethau gyda phlant

Mae'r plant yn dweud eu bod yn hapus yn y lleoliad a'u bod yn hyderus i droi at unrhyw oedolyn i ofyn am gyngor neu arweiniad.

## Atodiad 2

### Yr arolygydd cofnodol

| | |
|---|---|
| Mr Wil Williams | Arolygydd Cofnodol |

### Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Y Gymdeithas Gwarchod Plant Genedlaethol (NCMA)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg.  (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg.  Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |